# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

**CC(3)-19-08 (p1) : 22 Hydref 2008**

### Papur tystiolaeth - Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dyraniadau Cyllideb Drafft ar gyfer 2009-10 a 2010-11.

### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllideb yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar gyfer rhaglen y dyfodol fel y'u hamlinellir yn y gyllideb ddrafft a osodwyd ar 7 Hydref 2008. Mae'n amlinellu'r meysydd hynny a gwmpesir gan gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, sef diogelwch cymunedol a chynhwysiant cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf.

### 2.Cefndir

Mae Cyllideb Ddrafft 2009-10 yn dyrannu £25.17 miliwn ychwanegol i'r Prif Grwp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol dros y ddwy flynedd nesaf (mae'r swm hwn yn cynnwys trosglwyddiadau o brif grwpiau gwariant eraill, sef cyfanswm o £816k).

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb linell sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos y twf canrannol yn y gyllideb ers y flwyddyn flaenorol.

### Tabl Ariannol Cryno:

£000

| | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol | 4,268,395 | 4,387,183 | 4,516,633 |
| Newidiadau | | 12,573 | 12,599 |
| Diwygiwyd | | 4,399,756 | 4,529,232 |
| Newid canrannol | | 3.1% | 2.9% |

### 3.Trosolwg ar y Gyllideb

Y bwysicaf o flaenoriaethau'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol dros y tair blynedd nesaf yw gwireddu ymrwymiadau 'Cymru'n Un' ac rwyf yn hyderus y bydd y cynigion fel y'u cyflwynir yn y Gyllideb Ddrafft yn caniatáu inni wneud hynny. Mae'r dyraniadau a'r trosglwyddiadau rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn adlewyrchu ymrwymiadau y tynnwyd sylw atynt yn Cymru'n Un, yn arbennig cynyddu'r nifer o leoedd adsefydlu o ganlyniad i gyffuriau ac alcohol sydd ar gael yng Nghymru.

Serch hynny, mae cryn bwysau o hyd ar y gyllideb Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a bydd yn rhaid dal i wneud penderfyniadau anodd rhwng gwahanol flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae hi felly'n hynod o bwysig inni ddal i bwyso am arbedion effeithlonrwydd a chynyddu effaith ein hadnoddau i'r eithaf.

### 4.Dyraniadau

Mae elfen refeniw llywodraeth leol o Brif Grwp Gwariant CCLlL yn cyfrif am dros £3.9 biliwn yn 2009-10 a £4 biliwn yn 2010-11, a dyrennir y gweddill i ddiogelwch cymunedol ac adfywio cymunedau. O'r £25.17 miliwn ychwanegol, mae £10 miliwn ychwanegol yn 2009-10 a £10.5 miliwn yn 2010-11 wedi ei ddyrannu i gynorthwyo gwasanaethau a gyflenwir gan awdurdodau lleol trwy Grant Cynnal Refeniw. Dyrannwyd y cyllid sy'n weddill fel a ganlyn:

### BEL Refeniw Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i gynyddu £2.024 miliwn yn 2009-10 a £1.224 miliwn yn 2010-11

Mae goblygiadau camddefnyddio sylweddau yn eang ar draws portffolios ac mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn cyfrannu at leihau costau cyfredol cymdeithasol, economaidd ac iechyd sy'n ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Amcangyfrifir bod y costau hynny yn £2 biliwn y flwyddyn, ac maent yn cynnwys marwolaethau cysylltiedig â chyffurfiau, trosedd cysylltiedig â chyffuriau, trais ac ymddygiad

gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol. Mae nifer o ymrwymiadau yn Cymru'n Un sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â phroblemau â chyffuriau ac alcohol. Y ddau yr wyf yn arbennig o awyddus i ymdrin â hwy yw'r ymrwymiadau penodol i gynyddu'r nifer o leoedd adsefydlu mewn perthynas â chyffuriau ac alcohol sydd ar gael yng Nghymru a sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael yn rhwyddach. Bydd y cynnydd yn y meysydd hyn yn cyfrannu at ddarparu lleoedd i ddadwenwyno cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl wrth drin cyffuriau ac alcohol (gwasanaethau Haen 4); a'r nifer o gwnselwyr a hyfforddwyd mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

### BEL Tlodi ymhlith Plant a Chynhwysiant Ariannol i gynyddu £250,000 y flwyddyn

Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi sefydlu Grwp Gorchwyl i roi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl ac i helpu i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae'r Grwp Gorchwyl yn cynnwys aelodau o Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Grwp Gorchwyl wedi dangos diddordeb arbennig yn y ffyrdd y mae tlodi yn effeithio ar blant anabl a'u teuluoedd. Rwy'n awyddus i edrych ar gynigion penodol ar sut y gellir annog a chynorthwyo teuluoedd sydd â phlant anabl i fynd ar ôl budd-daliadau cymwys. Bydd y cyllid hwn ar gael at y diben hwnnw a datblygir cynigion dros y misoedd nesaf.

### 5.Newidiadau eraill o ran Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (Refeniw)

Mae'r BEL Refeniw canlynol yn dangos newidiadau o ganlyniad i naill ai drosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu oherwydd ailflaenoriaethu:

### BEL Economi Gymdeithasol i leihau £500,000 y flwyddyn

Trosglwyddiad technegol yw hwn yn unig i'r BEL Tlodi ymhlith Plant a Chynhwysiant Ariannol i roi mynediad at undebau credyd i bob ysgol uwchradd.

### BEL Cymorth i'r Sector Gwirfoddol / Gwirfoddoli i gynyddu £73,000 y flwyddyn

Trosglwyddiad yw hwn o'r Prif Grwp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar gyfer gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar staff gofal dydd.

### BEL Tlodi ymhlith Plant a Chynhwysiant Ariannol i gynyddu £700,000 yn 2009-10 a £750,000 yn 2010-11

Mae'r dyraniadau hyn yn cynnwys:

£250,000 y flwyddyn ar gyfer ymgyrch trwy Gymru gyfan i gynyddu budd-daliadau i deuluoedd sydd â phlant anabl;

£500,000 o'r BEL Refeniw Economi Gymdeithasol i roi mynediad at undebau credyd i bob ysgol uwchradd;

£50,000 yn 2009-10 yn unig i'r Prif Grwp Gwariant Plant, Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau ar gyfer Uned Addysg Ariannol Cymru.

### BEL Cynhwysiant i gynyddu £400,000 y flwyddyn

Mae'r codiadau hyn yn cynnwys:

£200,000 o'r BEL Ymchwil a Gwerthuso Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar gyfer gwaith ar Sipsiwn-Teithwyr;

£200,000 o'r BEL Ymchwil a Gwerthuso Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar gyfer gwaith ar Gydlyniad Cymunedol.

### 6.Newidiadau eraill o ran Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (Cyfalaf)

Mae'r BEL Cyfalaf canlynol yn dangos newidiadau o ganlyniad i naill ai drosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu oherwydd ailflaenoriaethu:

### BEL Rhaglen Adfywio Canol Trefi i leihau £2.5 miliwn yn 2009-10 a £3.5 miliwn yn 2010-11

Daw'r Gronfa Adfywio Ffisegol i ben yn 2009-10 ac mae cyfle felly i drosglwyddo cyllid i flaenoriaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post ar ei newydd wedd, a Chronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

### BEL Buddsoddi yn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol i gynyddu £2 miliwn yn 2009-10 a £3 miliwn yn 2010-11.

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ar 19 Mehefin 2008 ei fod yn bwriadu edrych ar greu cronfa asedau cymunedol. Caiff y trosglwyddiad hwn o'r BEL Rhaglen Adfywio Canol Trefi ei gylchamddiffyn ar gyfer hynny.

### BEL Cyfalaf Economi Gymdeithasol i gynyddu £500,000 y flwyddyn

Mae'r codiadau hyn yn ymwneud â'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post ar ei newydd wedd a byddant yn creu cyfanswm o £1miliwn o gyllideb gyfalaf ar gyfer y Gronfa honno. Trosglwyddwyd y cyllid o'r BEL Rhaglen Adfywio Canol Trefi.

### BEL Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr i gynyddu £1.5 miliwn y flwyddyn

Cyhoeddwyd Rhaglen Grant Safleoedd Newydd Sipsiwn-Teithwyr yn ôl ym mis Mawrth 2008 i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu safleoedd preswyl newydd yn ôl anghenion a ddynodir. Trosglwyddwyd y cyllid angenrheidiol ar gyfer hyn o'r BEL Grant Cyfalaf Tywydd Garw/Peryglon Amgylcheddol .

**Brian Gibbons AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**